## MYNYDDOEDD DUON/MYNYDD Y GADER

Byddai mwy o enwau creigiau a chlogwyni wedi bod yn yr ardal hon ar un adeg. Mae'r wybodaeth am enwau wedi eu colli wrth i arfer amaethyddol newid, gyda llai o fugeilio ar y bryniau, a diboblogi gwledig yn ymgasglu. Fodd bynnag, y prif achos o ran colli enwau yw'r dirywiad yn nefnydd y Gymraeg dros y canrifoedd; enwedig yn ystod Oes Fictoria gyda'i syniadau 'blaengar' ynglŷn ag addysg a'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg. Efallai y bydd rhai o'r enwau 'coll' yn dal i oroesi mewn defnydd lleol, er y bydd angen eu cofnodi'n fuan.

**Black Darren/Tarren Ddu  SO 293303**

Yr enw a roddir ar fapiau'r AO; fodd bynnag, mae'n debygol mai cyfieithiad uniongyrchol o'r enw gwreiddiol. Mae'n anodd nodi pryd y digwyddodd y newid, er ei fod yn eithaf hwyr yn ôl pob tebyg. Rhaid cofio bod llawer o Swydd Henffordd, enwedig yr ardaloedd i'r gorllewin o afon Gwy, yn Gymraeg eu hiaith ymhell i mewn i'r 17eg G.

**Bryniog  SO 198224**

Mae'r term bryniog braidd yn ddiarth fel enw ar ychydig o greigiau; nid oes enw arall ar y darn bach o dir garw.  Tybed os breuan, brefan 'bran dyddyn, cigfran' + -og 'cysylltiad â, tueddiad i', sydd yn yr enw i nodi man ble roedd brain yn casglu.

**Craig Ddu  SO 288265** .

Unwaith eto mae'r gair du yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio man ble mae'r agwedd tywyll, gogledd ddwyreiniol yn y man, wedi rhoi'r nodwedd mewn cysgod.

**Y Darren  SO 296244,  SO 212212**

Mae sawl tarren 'clogwyn' wedi eu ffurfio oherwydd tirlithriadau mawr.

**Y Graig SO 255161**

The definite article y makes the word craig 'cliff, rock' mutate; it also gives any word or name a heightened level of distinction or importance.

**Red Darren/Tarren Goch SO 295296**

Tarren sy'n edrych yn goch oherwydd presenoldeb tywodfaen, neu greigiau wedi'u harlliwio gan y tywodfeini. Mae'r rhan fwyaf o'r creigiau yn yr ardal yn perthyn i'r grŵp Hen Dywodfaen Coch ac yn dyddio o'r cyfnod Defonaidd. Mae'r dilyniant o greigiau yn cynnwys tywodfeini, cerrig llaid a cherrig silt ac mae'r ardal yn dangos effeithiau erydol Rhewlifiant.

**Tarren yr Esgob  SO 237314**

Y tebygrwydd yw mai cysylltiad gydag esgob 'clerigwr eglwysig' sydd yn yr enw, oherwydd ei safle uwch Capel y Ffin. Mewn mannau eraill, fedrir cynnig ffurf amrywiol leol y geiriau: ysbig 'pigyn'; neu, ysgyb 'sypyn yd', ar lafar fel esbog, esgob. Taren'r Esgob 1832 AO.